

Prifardd yn ennill Her Gyfieithu 2016

(English follows)

Ar Awst 4ydd, ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, cyhoeddwyd enillydd y gystadleuaeth Her Gyfieithu 2016, sef Glenys M. Roberts, y Prifardd Glenys Mair, a enillodd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy. Y wobwr oedd sicc am £250 a ffon farddol a gyflwynwyd gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Y gamp eleni oedd cyfieithu cerdd gan fardd o Fecsico, Pedro Serrano, naill ai i'r Saesneg neu'r Gymraeg. Fe gyhoeddwyd enw'r enillydd ar yr ochr Saesneg eisoes adeg Gŵyl y Gelli. Trefnwyd y gystadleuaeth gan WalesPEN Cymru a'r Gyfnewidfa Lên, a noddwyd hi gan Goleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau ym Mhrifysgol Abertawe.

Ganwyd yr enillydd yn Nyffryn Ceiriog a'i magu ym Môn. Ar ôl astudio Cymraeg yn Aberystwyth bu'n byw ym Morgannwg er 1970 gyda'i gwr Guto. Treuliodd gyfnod yn athrawes Gymraeg, yn magu teulu ac yn gweithio fel swyddog golygyddol a swyddog Cymraeg i Oedolion i CBAC, cyn troi at gyfieithu a golygu ar ei liwt ei hun. Bu'n aelod o Fwrdd Cyfarwyddwyr a Bwrdd Arholi Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru am flynyddoedd. Bu'n dysgu Sbaeneg ers rhai blynyddoedd. Mae ganddi dri o blant a phedwar o wyrion, ac un arall ar y ffordd. Dywed Ned Thomas wrth draddodi'r feirniadaeth iddi ragori ar yr ymgeiswyr eraill oherwydd ei gafael ar deithi'r iaith Gymraeg a'i gallu oherwydd hynny i gyfleu ystyr y gwreiddiol mewn Cymraeg naturiol ac idiomatig.

Dywed Sally Baker, Cyfarwyddwr WalesPEN Cymru: "I gymdeithas awduron ryngwladol fel ninnau mae cyfieithu yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod syniadau yn cael croesi ffiniau yn ddirwystr"; ac yn ôl yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones o Brifysgol Aberystwyth: "Mae datblygu sgiliau cyfieithu i lefel uchel yn hanfodol i'r cynlluniau cyfnewid llenyddol a letyir yma yn Sefydliad Mercator - sef Y Gyfnewidfa Lên a Llenyddiaeth ar draws Ffiniau."

Am wybodaeth bellach cysylltwch â post@waleslitexchange.org neu Menna Elfyn, mennaelfyn@btinternet.com

Translation Challenge 2016 winner announced

At an award ceremony held on August 4th at the National Eisteddfod in Abergavenny, Glenys M. Roberts was proclaimed the winner of the Translation Challenge 2016 and collected her prize money of £250 and a carved staff presented by Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru (The Association of Welsh Translators and Interpreters). The task set in this year's competition, organized jointly by Wales PEN Cymru and Wales Literature Exchange, and sponsored by Swansea University's College of Arts and the Humanities, was to translate a poem by Mexican poet Pedro Serrano from Spanish into either English or Welsh. This year's English winner has already been announced at the Hay Festival.

Glenys Roberts was born in Dyffryn Ceiriog and grew up in Anglesey. She graduated in Welsh from Aberystwyth University and has been living since 1970 in Glamorgan with her husband Guto, working as a teacher and later for the Welsh Joint Education Committee before branching out as a freelance translator and editor. For many years she was on the management board of Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru and a member of its examining board. In 2010 she was the crowned bard at the Blaenau Gwent National Eisteddfod and carries the bardic name Glenys Mair. She has three children and four (soon to become five) grandchildren. In recent years she has been learning Spanish and in his adjudication Ned Thomas praised her grasp of the syntactic resources of the Welsh language and her consequent ability to render the original text into natural-sounding and idiomatic Welsh.

"Translation is fundamental to the free circulation of ideas between cultures and is therefore a key priority for an international writers' organization like our own" said Sally Baker, Director of Wales PEN Cymru. Professor Elin Haf Gruffydd Jones, Director of the Mercator Institute which houses Wales Literature Exchange and the EU-funded Literature Across Frontiers Programme added: "the development of high level translation skills is essential to the process of literary exchange which we exist to promote."

Further information from post@waleslitexchange.org or Menna Elfyn, mennaelfyn@btinternet.com